Bwletin Llythrennedd i Rieni

Literacy Bulletin for Parents

Darllen yw ein blaenoriaeth ni fel ysgol eleni o ran Llythrennedd. Dyma'r tri pheth sydd yn weithredol ers cychwyn y flwyddyn academaidd hon:

Reading is our Literacy priority as a school this year. These are the three things that are in operation since the beginning of this academic year:

<u>Rhaglen Let's Think in English/*Let's Think in English Programme*</u>

Ysgol Dyffryn Conwy yw'r unig ysgol yng Nghymru i weithredu'r rhaglen hon sydd wedi ei datblygu gan Goleg King's Llundain. Mae'r rhaglen yn weithredol yn yr ysgol o fewn yr Adran Saesneg ers mis Medi. Mae hi wedi ei chynllunio i helpu datblygu uwch sgiliau darllen sydd eu hangen ar fyfyrwyr i lwyddo wrth resymu, dod i gasgliad a dadansoddi yn y Saesneg yn ogystal â magu hyder a gwytnwch pan yn ymateb i destunau anghyfarwydd. Mae'r rhaglen hon wedi ei chynllunio i gael ei defnyddio bob pythefnos ac mae'n bennaf ar gyfer datblygu llafaredd, wedi ei seilio ar ddarllen, cwestiynu agored a gwaith grŵp strwythuredig sydd yn cynyddu sgiliau rhesymu a metawybyddiaeth myfyrwyr neu fyfyrio strwythuredig. Mae'n defnyddio testunau o ansawdd uchel yn y Saesneg; ffuglen, barddoniaeth, ffeithiol, drama neu ffilm ac mae'n datblygu gallu myfyrwyr i gynnig cyfiawnhad rhesymol dros eu barn.

Ysgol Dyffryn Conwy is the only school in Wales to implement this programme developed by King's College London. This programme is operational in the school within the English Department since September. It is designed to help develop the higher-order skills needed by students for success in English inference, deduction and analysis together with confidence and resilience when responding to unfamiliar texts. This programme is designed to be used fortnightly and is largely oral, based on reading, open-ended questioning and structured group discussion which increases students' reasoning skills and metacognition or structured reflection. It uses high-quality English texts; fiction, poetry, non-fiction, drama or film and it develops students' ability to provide reasoned justifications for their views.

Cynllun darllen boreol/*Morning reading plan*

Cwblhaodd blwyddyn 7 holiadur darllen yn ystod mis Medi. Defnyddiwyd eu hatebion a'u sylwadau er mwyn darganfod pa fath o lyfrau maen nhw'n mwynhau eu darllen fel bod llyfrau newydd, addas yn gallu cael eu harchebu ar gyfer y cynllun darllen boreol.

Dros y flwyddyn academaidd hon mae'r pedwar dosbarth blwyddyn 7 yn eu tro yn cael y cyfle i ddarllen llyfrau o'r llyfrgell symudol yn ystod dau fore'r wythnos. Bydden nhw'n cael y cyfle i ddewis llyfrau sydd yn apelio atyn nhw a chwblhau ambell dasg a fydd yn gwella eu dealltwriaeth o'r llyfrau hyn. Bydd y darllenwr mwyaf brwd yn derbyn gwobr a thystysgrif ar ddiwedd pob hanner tymor.

Year 7 completed a reading questionnaire during September. Their answers and comments were used to find out what sort of books they enjoy reading so that new, suitable books for the morning reading programme could be bought.

During this academic year, the four year 7 class in their turn has the chance to read books from the new mobile library during two mornings a week. They will get to choose books that appeal to them and complete a few tasks that will improve their understanding of these books. The most enthusiastic reader will receive a prize and a certificate at the end of each half term.

Hysbysfwrdd Darllen er Mwyn Pleser/*Reading for Pleasure notice board*

Mae arddangosfa wal ar y coridor Dyniaethau wedi ei chreu er mwyn hybu darllen er mwyn pleser. Arni mae lluniau o staff a'u hoff lyfrau er mwyn codi proffil darllen. Ar yr hysbysfwrdd hefyd y mae awgrymiadau ar gyfer darllen llwyddiannus a ffeithiau am fudd a phwysigrwydd darllen i bob unigolyn.

A wall display to promote reading for pleasure has been created on the Humanities corridor. There are pictures of staff and their favourite books on the display in order to raise the profile of reading. Also on display are tips for successful reading and facts about the benefits and importance of reading for each individual.

Dyma ddolen gyswllt i wefan Cyngor Llyfrau am ragor o adnoddau a gwybodaeth am ddarllen:

http://www.cllc.org.uk/hafan-home?diablo.lang=cym

Here is a link to the Book Council website for more resources and information about reading:

http://www.cllc.org.uk/hafan-home?diablo.lang=eng